



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Datblygu Strategaeth i Hybu'r Gymraeg

Cydweithio â phartneriaid allweddol wrth ddatblygu strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg

Dyddiad: Hydref 2018

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi ymgynghori'n helaeth â'i rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol wrth ddatblygu ei strategaeth hybu gyda'r weledigaeth o greu prifddinas wirioneddol ddwyieithog ar gyfer Cymru.

CEFNDIR

Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn gofyn i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth pum mlynedd, sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a tharged i gynnal neu gynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg yn y sir.

Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017 - 2022 yw strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg gyntaf Cyngor Caerdydd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017 yn dilyn cymeradwyaeth y cabinet a'r Cyngor llawn. Mae'n strategaeth sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerdydd ar y cyd â'i bartneriaid, gyda'r nod o fod yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog ar gyfer Cymru.

Yn dilyn 'Y Gynhadledd Fawr' a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013 mewn ymateb i ganfyddiadau cyfrifiad 2011, gwelodd y Cyngor bod cyfle i barhau â'r gwaith o wurdroi canlyniadau'r cyfrifiad a threfnu cynhadledd Caerdydd Ddwyieithog. Yn y gynhadledd daethpwyd â phartneriaid, rhanddeiliad ag unigolion ynghyd er mwyn dathlu'r Gymraeg yng Nghaerdydd, yn ogystal â gosod gweledigaeth glir ac uchelgeisiol o greu prif ddinas gwirioneddol ddwyieithog.

Trefnwyd y gynhadledd 'Caerdydd Ddwyieithog' gyntaf yn 2014 a bu'r gynhadledd yn fodd o alluogi partneriaid i ystyried a lleisio'r materion a'r blaenoriaethau a arweiniodd at sefydlu yr Hen Lyfrgell fel canolfan ar gyfer y Gymraeg yng nghanol y ddinas. Yn

ogystal â hyn, ffurfiwyd seiliau partneriaeth gref ar gyfer Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyeithog.

YMGYNGHORI Â STAFF

Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori mewnol ar ffurf gweithdy gyda Chydlynwyr y Gymraeg, Hyrwyddwyr y Gymraeg a swyddogion polisi, i ffurfio prif flaenoriaethau'r strategaeth. Yn dilyn y digwyddiad hwn cyhoeddwyd arolwg ymgynghori mewnol ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn cael barn y gweithlu ac er mwyn datblygu'r blaenoriaethau strategol ymhellach. Cafodd y strategaeth ddrafft ei hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli, Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyeithog a'r Cabinet cyn cyhoeddi'r Strategaeth ddrafft.

YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ar y strategaeth ddrafft am 6 wythnos rhwng Medi a Thachwedd 2016.

Gofynnwyd cwestiynau penodol fel rhan o'r ymgynghoriad gan gynnwys yr enghreifftiau isod:

Er mwyn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 15.9% o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,584 (Cyfrifiad 2021). Ydych chi'n cytuno â'n targed dros dro?

Ydw

Nac ydw – mae'n rhy uchel

Nac ydw mae'n rhy isel

Ydych chi'n cytuno gyda'r weledigaeth yn gyffredinol ar gyfer Caerdydd wirioneddol ddwyeithog?

Cytuno'n Gryf

Tueddu i Gytuno

Y naill na'r llall

Tueddu i Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Ddim yn Gwybod

Fel rhan o'r ymgynghoriad cynhaliwyd gweithdy gyda 26 o brif bartneriaid a rhanddeiliaid y Cyngor. Ymhlith y mynychwyr roedd Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Menter Caerdydd ac Urdd Gobaith Cymru. Yn ystod gweithdy, datblygwyd cynllun gweithredu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r strategaeth. Roedd hi'n allweddol sicrhau fod pob partner yn cymryd perchnogaeth dros amcanion perthnasol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac yn aml roedd yr amcanion yn adeiladu ar waith oedd eisoes ar y gweill ganddynt. Hon oedd y Strategaeth gyntaf i ddwyn ynghyd yr holl waith oedd yn digwydd

yn y maes gan gynifer o bartneriaid brwdfrydig a rhoddodd gyfle i'r partneriaid oll i ddod i wybod mwy am waith sefydliadau eraill.

CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD

Derbyniwyd **254** o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. O'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus (223 ymateb) roedd **70.3%** yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r weledigaeth o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog. Roedd **53.2%** yn cytuno â'r targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

GOSOD TARGED I GYNYDDU'R NIFEROEDD O SIARADWYR CYMRAEG

Mae'n ofyniad statudol i bob awdurdod lleol i osod targed i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y strategaeth. Gan fod Llywodraeth Cymru (Awst 2016) wedi cyhoeddi gweledigaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, roedd y Cyngor yn gytûn y dylai'r strategaeth a'r targed gyd-fynd â'r weledigaeth hon.

I gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon, gwelwyd y byddai angen cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan **15.9%** o **36,735** (Cyfrifiad 2011) i **42,584** (Cyfrifiad 2021). Y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y targed hwn oedd defnyddio'r cynnydd canrannol fyddai ei angen bob blwyddyn yn y nifer o siaradwyr Cymraeg er mwyn cyrraedd 1 miliwn erbyn 2050 (i fyny o 562,016 yng nghyfrifiad 2011).

BLAENORIAETHAU A STRWYTHUR

Mae'r dull a fabwysiadwyd yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog wedi ei strwythuro i adlewyrchu'r meysydd strategol a amlinellwyd yn strategaeth iaith Llywodraeth Cymru ar y pryd (Iaith Fyw, Iaith Byw), yn benodol

- Teulu, Plant a Phobl Ifanc,
- y Gymuned,
- Seilwaith,
- y Gweithle
- Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

Yn dilyn ymgynghori, cyfunwyd y meysydd strategol uchod i greu 3 maes strategol

- 1) Y Teulu, Plant a Phobl Ifanc
- 2) Cymuned a seilwaith a
- 3) Gwasanaethau Iaith Gymraeg a'r Gweithle.

GWELEDIGAETH ‘CAERDYDD DDWYIEITHOG’

“Ein gweledigaeth yw datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn yr un modd. Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio.”

Mae'r Strategaeth yn cydnabod ei lle oddi mewn i'r weledigaeth genedlaethol, ac mae'n amlinellu'n glir ei chyfrifoldeb o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r weledigaeth hefyd yn rhoi amlinelliad o'r ffordd y bydd Caerdydd Ddwyeithog yn edrych, teimlo a swnio, ac mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dri maes strategol gyda blaenoriaethau perthnasol a thargedau er mwyn gweithredu.

Mae'r strategaeth yn sicrhau bod gan bob partner ran yn y weledigaeth, ac yn eu dwyn ynghyd i gydweithio a defnyddio arbenigedd a gallu nifer o bartneriaid, gan fanteisio ar safle Caerdydd fel prifddinas.

Un o gryfderau'r strategaeth yw ei bod yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Bydd cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg yn ogystal â'r dinasyddion. Mae llwyddiant y strategaeth yn dibynnu ar gydweithio cryf rhwng partneriaid a strwythur llywodraethiant gref .

STRWYTHUR LLYWODRAETHIANT

Sefydlwyd strwythur llywodraethiant gadarn i gyflawni a monitro camau gweithredu Strategaeth Caerdydd ddwyieithog, gan gynnwys sefydlu Fforwm Caerdydd Ddwyeithog gyda dros 35 o sefydliadau yn cael eu cynrychioli.

Amcanion a swyddogaeth y fforwm sy'n cwrdd bob chwarter yw i:

1. Sicrhau fod pob cynrychiolydd yn gyfrifol am fonitro'r camau gweithredu sy'n berthnasol i'w sefydliad eu hunain.
2. Darparu adborth chwarterol i Weithgor Aelodau Caerdydd Ddwyeithog y cyngor ar weithredu'r camau perthnasol.
3. Cyfrannu at ymatebion yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r Gymraeg ar ran y fforwm.
4. Rhannu arfer da a nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er budd y Gymraeg yng Nghaerdydd.

Fel rhan o'u cylch gorchwyl, bydd Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyeithog hefyd yn diweddarau'r Cabinet yn rheolaidd ar waith Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog.

TRAWEFFAITH Y STRATEGAETH

Wrth osod gweledigaeth glir a tharged o ran cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghaerdydd, mae'r strategaeth yn rhoi cyfeiriad clir i agenda y Cyngor o ran y Gymraeg. Wrth greu a chodi ymwybyddiaeth o frand 'Caerdydd Ddwieithog' mae'r Cyngor yn gobeithio gallu dylanwadu ar bartneriaid newydd a sicrhau fod sefydliadau'n gweithio tuag at yr un weledigaeth o fewn eu meysydd amrywiol. Mae gymaint o waith cadarnhaol yn cael ei gyflawni gan sefydliadau ar draws Caerdydd, ac mae'r strategaeth hefyd yn ffordd o adrodd ar y gwaith yma a chodi ymwybyddiaeth cynghorwyr y ddinas a'r cyhoedd am y gwaith hwn.

Ar lefel ymarferol, mae'r strategaeth hefyd wedi galluogi'r Cyngor i ymrwmo i fynd tu hwnt i ofynion Safonau'r Gymraeg mewn rhai meysydd penodol. Er enghraifft, nodai'r Safonau Gymraeg fod yn rhaid i'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf ar arwyddion a hysbysiadau swyddogol. Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau cysondeb, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i arddangos y Gymraeg yn gyntaf ar unrhyw ddeunydd arddangos a grëir. Ymhellach, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i sicrhau fod digwyddiadau lle bo'r Cyngor yn cyfrannu'n ariannol yn arddangos deunydd dwyieithog e.e. Sioe Flodau'r RHS, Gŵyl y Gaeaf, Ras Fôr Volvo. Mae cynnwys y gofyniad hyn yn y Strategaeth wedi galluogi'r Cyngor i fynd tu hwnt i ofynion statudol lle byddai ond angen gwneud hyn petaem yn ariannu dros 50% o'r digwyddiad.

Rhoddodd y strategaeth hefyd gyfle i werthuso sut y gall y Cyngor wella ei ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg i staff, ac o ganlyniad i hyn penodwyd tiwtor Cymraeg newydd i ddarparu hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff y Cyngor.

SUT GALL HYN WEITHIO I SEFYDLIADAU ERAILL?

Roedd y ffactorau canlynol yn allweddol bwysig i lwyddiant y strategaeth:

- pennu gweledigaeth glir o ran y Gymraeg fel iaith fyw yn fewnol yn y sefydliad ac hefyd y tu allan yn y ddinas
- sicrhau bod rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn perchnogi'r strategaeth a'i hamcanion.
- ymgynghori'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol ar y strategaeth

Manylion cyswllt

Enw: Ffion Gruffudd

Sefydliad: Cyngor Caerdydd

E-bost: FfGruffudd@cardiff.gov.uk

BARN Y COMISIYNYDD

Mae ymrwymiad Cyngor Caerdydd i gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr wedi ei gosod yn glir. Rwy'n croesawu'r modd y mae'r Cyngor wedi mynd ati yn rhagweithiol i sicrhau bod rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol nid yn unig yn cyfrannu at amcanion Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog ond hefyd yn ei pherchnogi. Mae traweffaith y Strategaeth i'w gweld yn barod ac edrychaf ymlaen at weld cynnydd pellach yn erbyn ei hamcanion dros y blynyddoedd i ddod.